Black Lives Matter: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Nghymru

Mae'r digwyddiadau diweddar yn America – ac ar draws y byd – wedi atgyfnerthu'r angen am fwy o newid, mwy o ymwybyddiaeth o fraint a thuedd, a'r angen i godi llais yn erbyn hiliaeth a gwahaniaethu ar bob ffurf. Maent wedi dod â phroblemau hiliaeth systemig i'r amlwg ac wedi tynnu sylw at yr angen i ni i gyd weithio'n galetach i sicrhau bod pawb yn derbyn y parch a'r cyfleoedd y maent yn eu haeddu.

Rydym yn credu'n gryf nad oes lle i ragfarn na gwahaniaethu yn ein cymdeithas heddiw. Serch hynny, mae wedi dod yn amlwg i ni nad yw'r ffordd rydym yn gweithredu, nac ychwaith rai o'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud, yn llwyr adlewyrchu'r egwyddor honno.

Dyletswydd Theatr Genedlaethol Cymru

Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i herio hiliaeth pryd bynnag a ble bynnag yr ydym yn ei weld. Fel cymdeithas, rhaid i ni fod yn ymwybodol o faterion hiliol strwythurol a systemig. Fel Theatr Genedlaethol Cymru, mae angen i ni ddwyn ein hunain i gyfrif a gwneud popeth o fewn ein gallu i greu sefydliad sy'n wirioneddol amrywiol. Rhaid inni yn awr – yn fwy nag erioed – drafod ein heriau ni ein hunain yn agored a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb lle bynnag yr ydym yn dod o hyd iddo. Rydym yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi tynnu ein sylw at enghreifftiau penodol sydd wedi ein galluogi i graffu ar ein gweithredoedd a dysgu o'r profiadau hynny.

Y camau nesaf

Mae digwyddiadau'r wythnosau diwethaf wedi ysgogi newid ynom ni ein hunain, ac felly hefyd yn ein sefydliad ac yn ein ffordd o weithio. Mae'r camau rydym wedi eu cymryd hyd yma wedi bod, fe dybiem, yn gamau i'r cyfeiriad cywir, ond nid ydynt wedi ein galluogi i symud yn ddigon cyflym. Er mwyn sicrhau bod y momentwm yn parhau, a bod y newidiadau angenrheidiol yn digwydd yn gyflymach, rydym wedi sefydlu grŵp o blith ymddiriedolwyr a staff y cwmni i graffu ar bob agwedd o'n gwaith a'n sefydliad – ac i greu cynllun cynhwysiant gyda nodau clir a phendant ar gyfer y tymor byr a'r tymor hir.

Rydym yn bwriadu addysgu'n staff a'n hymddiriedolwyr ar bynciau yn cynnwys hiliaeth sefydliadol a thuedd anymwybodol. Byddwn yn gwrando, ac yn gwahodd lleisiau newydd i'r sgwrs. Byddwn yn edrych ar ein proses o greu cynnwys creadigol, ac yn trafod sut mae modd i ni adlewyrchu cymunedau amrywiol Cymru yn well, a'u cynnwys yn ein gwaith. Byddwn yn ceisio adnabod unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag dod atom fel sefydliad, ac sy'n eu rhwystro rhag dod atom fel artistiaid, gweithwyr, cyfranogwyr a mynychwyr, ac yn ymdrechu i oresgyn y rhwystrau hynny. Byddwn yn rhannu'r cynllun cynhwysiant er mwyn bod yn dryloyw ac i sicrhau ein bod yn cael ein dwyn i gyfrif.

Dim ond geiriau yw'r rhain, sy'n nodi ein bwriad, ond rydym am ddangos y bwriad hwnnw a'n hymrwymiad trwy ein gweithredoedd. Ni all hyn ddigwydd dros nos, ond rydym yn ymrwymo i weithredu ar fyrder. Ac mewn blwyddyn, ein gobaith yw medru edrych yn ôl ar y foment hon a gweld yn glir y trawsnewidiad fydd wedi digwydd yn y cyfamser.

Black Lives Matter: Equality and Diversity in Wales

Recent events in America – and across the world – have reinforced the need for change, for greater awareness of privilege and bias, and for the need to speak out against racism and discrimination in all its forms. These events have highlighted issues of systemic racism and called attention to the need for all of us to work harder to ensure that everyone receives the respect and opportunities they deserve.

We strongly believe that there is no place for prejudice or discrimination in today's society. However, it is clear that the way we operate, and some of the decisions we have made, have not always reflected this principle.

Theatr Genedlaethol Cymru's Responsibility

It is everyone's responsibility to challenge racism whenever and wherever we encounter it. As a society, we must be mindful of structural and systemic racism. As Wales's Welsh-medium national theatre company, we need to hold ourselves accountable and do everything within our ability to create a truly diverse organisation. We must now – more than ever – discuss challenges openly and grapple with inequality wherever we find it. We are grateful to those who have brought specific examples to our attention, allowing us to scrutinise our actions; we will learn from these experiences.

Next steps

The events of the last few weeks have motivated all of us to make changes in our own lives, within our organisation and within our ways of working. While the steps we have taken so far, we believe, have been in the right direction, we know we have not moved fast enough. To ensure that this momentum continues, and that fundamental changes happen faster, we have established a new group from among our trustees and company staff to scrutinise every aspect of our work and our organisation – and to create an inclusion plan with clear and decisive actions for both the short and long term.

We intend to educate our staff and trustees on issues relating to institutional racism and unconscious bias. We will listen, and invite new and diverse voices to the conversation. We will analyse our processes for creating new creative content, and explore ways to better reflect and include the diverse communities of Wales in our work. We will aim to identify any barriers that prevent people from approaching us as an organisation or from engaging with us as artists, creatives, participants and audience members and we will strive to overcome these barriers. We will share our inclusion plan so that we are transparent and can be held accountable.

While these are just words noting our intention, we will prove our commitment through our actions. This will not happen overnight, but we commit to take action urgently. And in a year's time we hope to look back at this moment and clearly see the transformation that has taken place.